# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 26 Mai 2005

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd y strategaeth Creative Future:Cymru Greadigol. (WAQ43140)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Croeso Cymru'n bwriadu cydlynu a phecynnu'r profiad gwyliau twristiaeth marchogaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar y potensial a mireinio'r broses cynllunio gwyliau. (WAQ43119)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru neu Fwrdd Croeso Cymru'n cynnig unrhyw arian i whodoiask.com (WAQ43120)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Ardaloedd Twf Twristiaeth - Diddordebau Arbennig. (WAQ43121)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith twristiaeth seiclo yng Nghymru. (WAQ43122)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae Bwrdd Croeso Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i ddatblygu'r farchnad i dwristiaid sy'n seiclo yng Nghymru. (WAQ43123)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae Bwrdd Croeso Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i ddatblygu'r farchnad i dwristiaid sy'n cerdded yng Nghymru. (WAQ43124)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a

Bwrdd Croeso Cymru'n codi proffil ehangach i Gymru fel cyrchfan i dwristiaeth marchogaeth. (WAQ43125)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Croeso Cymru'n datblygu gwell rhwydwaith cynaliedig o lonydd a llwybrau i greu cysylltiadau cynnyrch a marchnata rhwng llwybrau a mathau eraill o gynnyrch i dwristiaid sy'n marchogaeth a gwasanaethau i greu cynnig cyflawn a chydlynol ym maes twristiaeth marchogaeth. (WAQ43126)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa opsiynau caffael a ddewiswyd ar gyfer y prosiect sy'n darparu cysylltiad band eang cyflymder-ffibr ar gyfer lleoliadau busnes dethol. (WAQ43127)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Ar ba ddyddiad yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd am y prosiect Cymorth Band Eang Arloesol Rhanbarthol sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Band Eang. (WAQ43128)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Faint a wariwyd ar gaffael gwasanaethau ymgynghori i gael cyngor cyn penderfynu bwrw ymlaen â'r prosiect i ddarparu band eang cyflymder-ffibr mewn parciau busnes a lleoliadau a bennwyd ymlaen llaw. (WAQ43129)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Faint o barciau busnes a lleoliadau sydd wedi'u dewis ar gyfer eu cysylltu â band eang cyflymder-ffibr fel rhan o'r Strategaeth Band Eang. (WAQ43130)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Faint mae'r Gweinidog wedi'i neilltuo yn ei gyllideb ar gyfer y prosiect i gysylltu lleoliadau busnes â band eang cyflymder-ffibr, a faint o'r arian hwn, os o gwbl, a ddaw o arian y GE. (WAQ43131)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Pa astudiaethau a wnaethpwyd ynghylch effaith economaidd gwahardd ysmygu ar Dai Tafarn yng Nghymru. (WAQ43134)

**Leighton Andrews (Y Rhondda)** A wnaiff y Gweinidog gomisiynu astudiaeth ar effaith economaidd debygol gwahardd ysmygu ar Dai Tafarn yng Nghymru, yn enwedig y rheini sy'n fentrau i unigolion. (WAQ43135)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ariannu cynlluniau gofal plant gan gynnwys Cymorth a Chychwyn Cadarn. (WAQ43132)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Pa rôl sydd gan Glybiau Plant Cymru o ran cyflwyno polisïau cyffredinol y Gweinidog ar ofal plant. (WAQ43133)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** A wnaiff y Gweinidog esbonio'i rôl yng nghyswllt apelau yn erbyn penderfyniadau awdurdodau lleol i gau ysgolion. (WAQ43136)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Gyda golwg ar Adroddiad Barker: "Darparu sefydlogrwydd; diogelu ein hanghenion tai i'r dyfodol', pa asesiad a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch effaith bosibl Atodiad budd-Cynllunio ar bolisïau Llywodraeth y Cynulliad ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad. (WAQ43173)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Gyda golwg ar Adroddiad Barker: "Darparu sefydlogrwydd; diogelu ein hanghenion tai i'r dyfodol', pa asesiad a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o'r goblygiadau ariannol i Gymru o ran sut y cai refeniw a gesglid drwy Atodiad Budd Cynllunio ei ddosbarthu ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad. (WAQ43174)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun datblygu gwledig. (WAQ43151)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i ddenu pobl ifanc i barhau'r traddodiad ffermio. (WAQ43152)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y cynhyrchwyr llaeth sydd wedi bod wrthi'n cynhyrchu yng Nghymru, bob blwyddyn er 1997 (WAQ43153)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y daliadau llaeth sydd wedi bod yng Nghymru bob blwyddyn er 1997 (WAQ43154)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Adolygiad Ailgyflunio'r GIG a'r dyddiad y disgwylir yr adroddiad. (WAQ43137)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Beth yw cylch gorchwyl yr Adolygiad Ailgyflunio ac at ba ddiben y'i sefydlwyd. (WAQ43138)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pwy sy'n cynnal Adolygiad Ailgyflunio GIG Cymru. (WAQ43139)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Ar gyfer llawfeddygaeth y galon, beth yw'r cyfnod aros byrraf a'r cyfnod aros hwyaf yng Nghymru a sut mae'r rhain yn cymharu â ffigyrau Lloegr. (WAQ43168)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Yng ngoleuni’r fframwaith strategol tair blynedd a geir ar dudalen 4 ‘Cynllun Oes~, faint o'r targedau cyfredol yn y Fframweithiau Gwasanaeth ac Ariannol a gaiff eu dileu. (WAQ43169)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** O’r targedau blynyddol ar gyfer blwyddyn un a dau pob fframwaith strategol y cyfeirir atynt ar dudalen 4 "Cynllun Oes", faint fydd yn ychwanegol at y targedau hynny sydd eisoes wedi'u nodi yn y Fframwaith Gwasanaeth ac Ariannol. (WAQ43170)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** O’r wyth pwynt bwled a restrir fel Gweledigaeth 2015 ar dudalen 4 "Cynllun Oes" faint sydd wedi’u cyhoeddi mewn dogfennau strategaeth/ llywodraeth o’r blaen, ac ar ba ddyddiadau. (WAQ43171)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Beth sy’n cael ei ystyried yn "arbedion effeithlonrwydd sylweddol ar ben y gofyniad presennol" fel y’i hamlinellir ym mharagraff 48 y papur Cabinet CAB(04)48 ar Raglen Buddsoddi Cyfalaf y GIG. (WAQ43172)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Yng ngoleuni ‘Cynllun Oes’ beth fydd effaith rhannu gwasanaethau dewisol a gwasanaethau brys ar:

a) trefniadau presennol Damweiniau ac Achosion Brys ar gyfer defnyddio gwelyau yn y sector aciwt

b) y drefn bresennol o rannu adeiladau rhwng adrannau Damweiniau a Brys a gwasanaethau aciwt

c) dyrannu’r gwelyau sydd ar gael. (WAQ43161)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Yng ngoleuni’r Gwasanaethau Aciwt Lleol fel y’u hamlinellir ar dudalen 18 ‘Cynllun Oes’ sut fydd rhannu’r ddarpariaeth yn wasanaethau anafiadau lleol a gwasanaethau achosion brys yn effeithio ar drefniadau cyfredol adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. (WAQ43162)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Yn unol â’r wybodaeth well a amlinellir ar dudalen 15 ‘Cynllun Oes’ a gaiff cyfnodau aros a niferoedd yr apwyntiadau a gaiff eu canslo'u cyhoeddi ar gyfer pob ysbyty. (WAQ43163)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Yn unol â’r wybodaeth well a amlinellir ar dudalen 15 ‘Cynllun Oes’ ar ba fformat y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi manylion am heintiau a ddelir mewn ysbytai. (WAQ43164)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint o ymgynghorwyr yn gweithio mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys oedd yn y GIG yn 1999 a faint sydd ynddo heddiw. (WAQ43165)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** O’r 10% o gleifion Damweiniau ac Achosion Brys na chânt eu gweld o fewn 4 awr faint a welir o fewn:

a) 4 i 5 awr

b) 5 i 6 awr

c) 6 i 7 awr

d) 7 i 8 awr

e) 8 i 9 awr

f) 9 i 10 awr. (WAQ43166)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Ar gyfer angiogram, beth yw’r cyfnod aros byrraf a’r cyfnod aros hwyaf yng Nghymru a sut mae’r rhain yn cymharu â ffigyrau Lloegr. (WAQ43167)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y BILlau gronni eu cyllidebau er mwyn datblygu partneriaethau strategol i gomisiynu gofal eilaidd fel y cyfeirir ato yn ‘Cynllun Oes’. (WAQ43155)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pwy fydd yn gyfrifol am sbarduno partneriaethau strategol i gomisiynu gofal eilaidd fel y cyfeirir ato ar dudalen 39 'Cynllun Oes’ (WAQ43156)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Sut fyddai’r Gweinidog yn diffinio ‘cymunedau iechyd naturiol’ fel y cyfeirir atynt yn ‘Cynllun Oes’. (WAQ43157)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Sut mae’r Gweinidog yn bwriadu gostwng diffyg ariannol y BILlau a’r Ymddiriedolaethau. (WAQ43158)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pa adnoddau ychwanegol yr ydych chi wedi’u nodi ar gyfer y tair swyddfa ranbarthol yn sgîl 'Cynllun Oes'. (WAQ43159)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Yn ystod y 3 mis diwethaf faint o gleifion sydd wedi gallu cael gafael ar aelod priodol o’r tîm gofal iechyd sylfaenol o fewn y targed 24 awr. (WAQ43160)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Comisiwn Digartrefedd (WAQ43141)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba asesiad/ymchwil a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wybod beth yw effaith digartrefedd a chartrefu teuluoedd â phlant mewn llety Gwely a Brecwast. (WAQ43142)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod llety'n cael ei ganfod i garcharorion a chyn-droseddwyr pan fyddant yn ymadael â'r carchar. (WAQ43143)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i sicrhau bod perthynas weithio well rhwng cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol. (WAQ43144)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y tai gwag yn y Canolbarth a'r Gorllewin a'r rheini'n eiddo i awdurdodau lleol, bob blwyddyn er 1997. (WAQ43145)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y tai gwag yng Nghymru a'r rheini'n eiddo i awdurdodau lleol, bob blwyddyn er 1997. (WAQ43146)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae awdurdodau lleol yn y Canolbarth a'r Gorllewin yn ei wneud i sicrhau bod eiddo gwag ar gael i aelodau o'r gymuned leol a'r digartref. (WAQ43147)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae awdurdodau lleol yng Nghymru'n ei wneud i sicrhau bod eiddo gwag ar gael i aelodau o'r gymuned leol a'r digartref. (WAQ43148)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y tai yng Nghymru a'r rheini'n eiddo i awdurdodau lleol, bob blwyddyn er 1997. (WAQ43149)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau a gafodd yn ddiweddar gyda'r Sefydliad Tai Siartredig. (WAQ43150)